Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DYDDIAD:	**15 Hydref 2024**
LLEOLIAD:	**O bell trwy gynhadledd fideo**
TEITL:	**Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24**
Er:	**Cymeradwyaeth**

Cefndir

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiad o effeithiolrwydd eu fframwaith llywodraethu o lei-af unwaith y flwyddyn, gan gynnwys eu systemau rheoli mewnol. Rhaid dogfennu'r adolygiad hwn mewn Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'i gyhoeddi fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor.
Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am fonitro'r trefniadau llywodraethu ar ran y Cyngor.

Rhaid paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â'r arferion priodol, gan gynnwys y rhai a nodir yn y fframwaith 'Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol' (2016) gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ('CIPFA') a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol ('SOLACE'). Mae'r Fframwaith, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016, yn seiliedig ar y '*Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus*' gan CIPFA/Ffederasiwn Rhyngwladol y Cyfrifwyr ('IFAC').

Mae'r fframwaith *'Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth* Leol' (2016) gan CIPFA/SOLACE yn nodi fframwaith o 7 egwyddor allweddol a fydd yn galluogi sefydliadau, partneriaethau'r sector cyhoeddus ac awdurdodau cyfun i gyflawni eu deilliannau wrth weithio er budd y cyhoedd. Cefnogir yr egwyddorion ymhellach gan egwyddorion craidd ymddygiad sy'n dangos sut y dylai llywodraethu da edrych yn ymarferol. Yr egwyddorion hyn yw'r sail ar gyfer Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol cyfredol y Cyngor ac fe'u hystyrir yn y ddogfen Fframwaith Llywodraethu drafft.

Y Sefyllfa bresennol

Cynhaliwyd gweithdy gyda swyddogion ac aelodau pwyllgor perthnasol ar 6 Rhagfyr 2023.

Yn y gweithdy, ystyriwyd:

- cynnydd ar y camau gweithredu a nodwyd yn Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu 2023-24.
- unrhyw dystiolaeth wedi'i diweddaru sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen.
- Camau gweithredu a nodwyd yn flaenorol.

Cytunwyd hefyd i ddiwygio'r sgorio yn y ddogfen o gyfanswm o 5 yn hytrach na 10 fel y blynyddoedd blaenorol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24 wedi'i ddrafftio ers hynny ac mae wedi'i atodi i'w gymeradwyo **(Atodiad 1)**.

Cynnig
Gofynnir i'r Pwyllgor i:

gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2023-24 (Atodiad 1)

Bydd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor a'r Cyngor, ynghyd â'r Datganiad Cyfrifon ym mis Tachwedd 2024.

ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):

Gofynnir i'r Pwyllgor:

i) Gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2023-24 (**Atodiad 1)**

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION :

Cydymffurfio â gofynion statudol

Atodiadau:	**Atodiad 1 –Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24**
Pennaeth y Gwasanaeth:	Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro
Swyddog Adrodd:	Katy Sinnett-Jones, Swyddog Llywodraethu
Dyddiad:	13.09.2024